


BWLETIN DISGYBLION



PUPILS' BULLETIN

11-02-15

Llongyfarchiadau/Congratulations

Llongyfarchiadau i Rhys Eckley 7R am fod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth Jiwdo. Mae Rhys wedi curo'r fedal aur dair gwaith yn olynol ac wedi cael ei wahodd i fod yn rhan o Sgwad Cymru yn 2015. Da iawn ti Rhys.

Congratulations to Rhys Eckley 7R on his recent success in Judo. Rhys has won the gold medal 3 times consecutively and has been selected to be part of the Welsh National Squad for 2015. Well done Rhys.



National Museum of Computing Bletchley Park

Ar ddiwrnod oer, pan oedd nifer o ysgolion ar gau oherwydd eira, aeth criw o ddisgyblion yr ysgol draw i'r National Museum of Computing yn Bletchley Park, Milton Keynes i dreulio'r diwrnod yn astudio hanes datblygiad cyfrifiaduron. Bu'r cyfleuon i ymweld â rhai o gyfrifiaduron enwoca'r byd yn du hwnt o ddiddorol.

Y cyfrifiadur cyntaf a welsom oedd "Colossus", sef un o'r cyfrifiaduron a ddefnyddiwyd i helpu'r "code breakers" yn ystod yr ail ryfel byd. Symudwyd ymlaen wedyn at yr "Harwell Dekatron", sef cyfrifiadur hynaf y byd sydd dal i weithio. Roedd hwn yn gyfrifiadur anferthol, yn llenwi ystafell gyfan. Er cymaint ei faint, diddorol oedd nodi fod ffonau symudol y disgyblion yn sawl gwaith mwy pwerus na'r hen Dekatron!

Synnodd y disgyblion pan gafwyd y cyfle i raglennu ar y BBC Micros, sef cyfrifiaduron o'r 80au. Gosodwyd tasg i'r disgyblion i greu gêm yn defnyddio iaith BASIC. Rhaid canmol pawb gan y llwyddodd pob un i greu rhyw fath o gêm.



National Museum of Computing Bletchley Park

Heb yn wybod i'r disgyblion, roedd darn o hanes Sir Fôn yn cuddio yng nghornel bella'r amgueddfa.

Roedd y "Marconi TAC" wedi bod yn monitro yr adweithydd niwcliar yn y Wylfa ers 38 o flynyddoedd, heb seibiant, cyn dod i ddiwedd ei oes yn 2003. Cafodd y tywysydd bleser yn clywed ein bod yn dod o Sir Fôn a bod cysylltiad gyda'r TAC.

Gwelwyd gwên fwyaf y diwrnod gan Matthew pan gafodd y cyfle i gyffwrdd y cyfrifiadur a ddefnyddiwyd gan Tim Berners Lee i greu y We Fyd Eang.

Cyn dal y tren yn ôl am Fangor, daeth uwchafbwynt y dydd pan gafwyd y cyfle i chwarae ar gemau cyfrifiaduron retro o'r 80au a'r 90au.

Felly, diwrnod da iawn, gyda'r disgyblion wedi mwynhau yn fawr ac wedi elwa llawer o'r daith.



NOSON ELUSENNOL CHARITY EVENING

YNG NGWESTYR ANGLESEY ARMS



13eg o CHWEFROR am 7yh

AT THE ANGLESEY ARMS HOTEL

13th of FEBRUARY at 7pm



Awyr Las
Blue Sky

Dewch yn llw i noson llawn adloniant yn cynnwys Ocsiwn Addewidion gan gumni Morgan Evans

An evening full of entertainment and an Auction of Promises by Morgan Evans Co. Ltd!

Pris mynediad yn cynnwys bwffe ysgafn :

Price of ticket including a light buffet :

£7

GWESTEION / GUESTS :

CÔR SEIRIOL

UNAWDYDD/SOLOIST HUW HARVEY

ENSEMBLE YSGOL DAVID HUGHES

BAND TERFYSG

TOCYNNAU AR GAEL GAN / TICKETS AVAILABLE FROM :

MRS ARIANWEN OWEN

YSGOL DAVID HUGHES

01248 712287

**Morgan
Evans**



THE
ANGLESEY
ARMS

Nodyn Atgoffa - Reminder

Cofiwch dim ysgol ddydd
Gwener yma mae hi yn
ddiwrnod hyfforddiant
mewn swydd. Hanner
tymor wythnos nesaf. Ysgol
yn ail agor ddydd Llun
Chwefror 23ain.
Mwynhewch y gwyliau

Remember no school this
Friday due to staff inset
training day. It's half term
next week. School re opens
on Monday February 23rd.
Enjoy the holidays.

